

# Nivolumab ar y cyd ag ipilimumab ar gyfer trin melanoma datblygedig

Gorffennaf 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir nivolumab (Opdivo) gydag ipilimumab (Yervoy). Mae'n driniaeth posibl ar gyfer melanoma datblygedig (na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig) mewn oedolion.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych melanoma datblygedig a bod eich meddyg yn credu mai nivolumab gydag ipilimumab yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai nivolumab ar y cyd ag ipilimumab fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Y cyflwr a'r triniaethau

Math o ganser y croen yw melanoma. Ystyr melanoma datblygedig yw pan na ellir tynnu'r canser yn llwyr drwy lawdriniaeth neu pan fydd wedi gwasgaru i rannau eraill o'r corff (metastatig).

Mae nivolumab ac ipilimumab yn gyffuriau sy'n helpu system imiwnedd y corff i adnabod a dinistrio celloedd melanoma. Cânt eu rhoi drwy bigiad.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwylod mwy.

Gall y sefydliadau canlynol gynnig cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Croen Prydain](#), 0207 391 6341
- [Melanoma UK](#), 0808 171 2455
- [Skcin - Elusen Canser y Croen Karen Clifford](#), 0115 981 9116
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000

- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol),  
0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2106-5